Cynllun Gweithredu



Glog, Hermon & Llanfyrnach

CYNLLUN GWEITHREDU

wedi ei baratoi gan

GYMUNEDAU Y GLOG, HERMON A LLANFYRNACH

ar y cyd â

RHWYDWAITH GWEITHREDU LLEOL SIR BENFRO ER MENTER A DATBLYGU (PLANED)

Cynnwys **Tudalen**

Cyflwyniad a'r Ffordd Ymlaen **3**

Cefndir y Cynllun Gweithredu **3**

Y Glog, Hermon a Llanfyrnach **4**

Cryfderau, Gwendidau, Bygythiadau a Chyfleoedd **6 - 11**

Argymhellion y Cynllun Gweithredu

A.	**Cyfleusterau a Datblygu Cymunedol**	**12 - 14**
B.	**Amgylchedd a Threftadaeth**	**14 - 15**
C.	**Busnes, Cyflogaeth a Hyfforddiant**	**15**
Ch.	**Ynni Adnewyddadwy ac Ailgylchu**	**15 - 16**
D.	**Twristiaeth**	**16**
Dd.	**Tai**	**16 - 17**
E.	**Cludiant, Trafnidiaeth a Hawliau Tramwy**	**17 - 18**

Grwpiau Gweithredu / Gweithgareddau **18**

Atodiad 1 19

Cyntunwyd y cynllun gweithredu hwn mewn cyfarfod cyhoeddus ar 15fed Medi 2004, yn dilyn dosbarthiad o'r Cynllun Gweithredu Drafft i breswylwyr cymuned Glôg, Hermon a Llanfyrnach

CYFLWYNIAD A'R FFORDD YMLAEN

Bwriad y Cynllun Gweithredu hwn ar gyfer cymunedau y Glog, Hermon a Llanfyrnach yw disgrifio'r materion a'r syniadau hynny y mae'r trigolion yn eu hystyried yn rhai a fyddai'n gwella ansawdd eu bywyd, pe baent yn cael sylw dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Drwy baratoi'r Cynllun Gweithredu hwn sydd wedi ei arwain gan y gymuned ac sy'n tanlinellu'r manteision y gellir eu cael trwy gydweithio, er enghraifft drwy fentrau cymdeithasol cymunedau, y gobaith yw y bydd modd denu cefnogaeth a nawdd gan y sector cyhoeddus a'r sector preifat er mwyn rhoi'r mentrau amrywiol a ddisgrifir yn y Cynllun ar waith.

CEFNDIR Y CYNLLUN GWEITHREDU

Yng ngwanwyn 2004, bu cynrychiolwyr o gymunedau'r Glog, Hermon a Llanfyrnach, Cyngor Cymuned Crymych a PLANED yn trafod argymhellion i baratoi Cynllun Gweithredu ar gyfer y tri phentref. Cytunodd y gymuned y byddai un cynllun unigol yn fwy tebygol o adlewyrchu amodau a dyheadau presennol y tri phentref na gwerthusiadau ac argymhellion ar wahân.

Saif y tri phentref yn ardal Cyngor Cymuned Crymych.

Y bwriad yw cael pobl o bob oed a chynrychiolwyr o amrywiol rannau'r gymuned i gymryd rhan yn y gwaith o baratoi'r Cynllun Gweithredu, ei fabwysiadu a'i roi ar waith.

Cynhaliwyd dau Ymarferiad Creu Gweledigaeth ym mis Ebrill a mis Mai 2004, a seiliwyd drafft cyntaf y Cynllun Gweithredu ar ganlyniadau'r ymarferiadau hyn.

Wrth baratoi'r Cynllun Gweithredu, daeth PLANED i wybod am Adroddiad o Werthusiad Cymunedol blaenorol ar gyfer Y Glog – Hermon – Llanfyrnach, a luniwyd ym mis Awst 2000 gan Dr Lyneth M. Davies ar ran partneriaeth oedd yn cynnwys Cymdeithas Les Hermon a'r Cylch a Menter Preseli Sir Benfro. Rhestrir prif gasgliadau'r Gwerthusiad Cymunedol yn Atodiad 3.

Tri phentref cymharol fach yw **Y GLOG, HERMON A LLANFYRNACH** (â phoblogaeth o ryw 60, 200 a 60 yn y drefn honno) sydd tua thair milltir i'r de-ddwyrain o Grymych yng ngogledd-ddwyrain Sir Benfro. Saif y Glog i'r gogledd o Afon Taf, ac mae Hermon a Llanfyrnach i'r de ohoni.

Er bod hanes archaeolegol cyfoethog yn perthyn i'r ardal hon, mae ei gweithgarwch economaidd mwy diweddar wedi bod yn ymwneud â ffermio mynydd, cloddio am lechi, a chloddio am blwm ac arian. Bu'r mwynglawdd arian-plwm yn gweithredu'n ysbeidiol o'r 1790au hyd 1877/1878. Ar un adeg, roedd chwarel lechi y Glog yn un o'r chwareli mwyaf yn y sir. Ers i waith rheolaidd ddod i ben yn y chwarel yn 1926, bu gwaith cloddio ysbeidiol yn digwydd yno ac mae'n parhau i gyflenwi cerrig ar adegau i'r rhan hon o Sir Benfro.

Yn 1964, caewyd y rheilffordd a fu'n cysylltu Hendy-gwyn ar Daf, Clunderwen a Chrymych er 1875 (ac a gafodd ei hymestyn i Aberteifi yn yr 1880au). Codwyd y cledrau'n ddiweddarach a gwerthwyd llawer o'r tir yn ôl i dirfeddianwyr lleol. Roedd y rheilffordd yn mynd trwy'r Glog a Llanfyrnach. Mae cwmni cludiant lleol wedi tyfu yn Llanfyrnach ar safle'r hen orsaf, a dyma gyflogwr mwyaf yr ardal.

Credir bod yr eglwys yn Llanfyrnach wedi'i sylfeini yn y bumed ganrif gan Sant Brynach, a oedd ar un adeg yn gaplan i Brychan, llywodraethwr yr hyn a ddaeth yn Sir Frycheiniog. Mae rhywfaint o dystiolaeth yn dangos y safai'r eglwys wreiddiol yn y cae gyferbyn â'r fynedfa i Fferm Trehenry, sydd bellach yn safle ar restr CADW. Ryw dro yn ystod y cyfnod Normanaidd, adeiladwyd yr eglwys ar ei safle presennol o fewn cyffiniau'r castell. Mae'n bosibl gweld twmpath y castell ar dir gweithdy *Francis Ceramics* o hyd.

Bu gan yr eglwys hanes brith o ran nawdd - bu'n perthyn ar wahanol adegau i fynachlogydd ac i gymdeithasau, er enghraifft Temlydd Marchogion y Deml. Cafodd yr eglwys ei hatgyweirio cryn dipyn ganol y ddeunawfed ganrif, ac eto yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gan ddechrau edrych yn debyg i'r hyn y mae heddiw yn y tri degau. A heddiw eto, mae arni angen gwaith atgyweirio helaeth.

Credir mai olion hen ystafell ysgol yw'r adfail wrth ymyl porth yr eglwys. Ar un adeg, bu nifer o feini hirion, ac erys un wrth y fynedfa i Fferm Rhydigarth yn Llanfyrnach.

Mae ardal Preseli Gogledd Sir Benfro yn adnabyddus am ei meini hirion. Credir bod cerrig Côr y Cewri yn deillio o'r ardal hon; ac fe'u symudwyd naill ai drwy nerth bôn braich, neu o ganlyniad i rewlif yn ystod yr oes rew ddiwethaf. Mae gan Hermon gyfran deg o gerrig. Ceir chwedl am frwydr ar Fynydd Bigni (sy'n edrych dros y pentref), lle lladdwyd dau benadur o Gymru. Gosodwyd dwy garreg fedd fawr i ddynodi'u beddau, a gellir gweld y ddwy garreg fedd o hyd, ger Brynmeini.

Bu gan Hermon chwe siop, gan gynnwys swyddfa bost a garej. Cysylltwyd y pentref â chwareli plwm ac arian y Glog. Roedd hynafiaid busnes teulu Cwmni Mansel Davies yn ofaint i'r chwareli plwm, ac yna ehangwyd y gwaith i gynnwys peirianwaith amaethyddol, ac wedyn datblygwyd busnes y teulu i'r hyn yr ydym yn ei adnabod heddiw.



Llun o'r Glog

CRYFDERAU, GWENDIDAU, BYGYTHIADAU A CHYFLEOEDD

Dyma'r prif agweddau a amlygwyd yn yr Ymarferiadau Creu Gweledigaeth diweddar. Maent wedi'u casglu at ei gilydd ar sail themâu eang - proses sy'n caniatáu dadansoddiad mwy adeiladol, a gwaith paratoi Cynllun Gweithredu sydd ag amcanion priodol ac argymhellion manwl.

Cryfderau

1. Er bod pob un o'r tri phentref yn teimlo bod ysbryd cymunedol cryf yn perthyn i bob un ohonynt a bod llawer o'r trigolion yn adnabod ei gilydd, roeddynt o'r farn hefyd bod llawer o gysylltiadau'n bodoli rhwng y cymunedau. Teimlwyd y byddai paratoi un Cynllun Gweithredu'n adlewyrchu'r cysylltiadau hynny ac y byddent hefyd yn elwa o waith o'r fath.

2. Hermon yw'r pentref mwyaf o'r tri, ac yno y cynhelir y rhan fwyaf o weithgareddau'r ardal. Ymhlith y cyfleusterau yn Hermon y mae adeilad yr ysgol, a'r cae chwarae y tu ôl iddo nad yw'n cael ei ddefnyddio'n aml; y lle chwarae cyfagos ar laswellt; y rhandiroedd gerllaw; yr Ysgol Sul; a'r dafarn sy'n ganolfan gymdeithasol lle caiff diodydd eu gwerthu a lle caiff digwyddiadau achlysurol eu cynnal.

3. Ymhlith yr adeiladau cymunedol hefyd y mae eglwys Sant Brynach yn Llanfyrnach, Capel y Bedyddwyr yn Hermon, a Chapel yr Annibynwyr yn Llwynyrhwrdd gerllaw. Cynhelir Ysgol Feithrin wirfoddol yn y "ffreutur" y tu cefn i'r ysgol.

4. Mae'r coetiroedd ar hyd llwybr Afon Taf ynghyd â'r ffaith fod yr ardal yn agos i Fynyddoedd y Preseli yn cyfrannu at leoliad gwledig deniadol y pentrefi. Ased gwerthfawr arall yw'r awyr lân.

5. Ystyrir bod y teuluoedd ifanc sy'n symud i'r pentrefi yn gryfder. Mae nifer sylweddol o dai newydd wrthi'n cael eu hadeiladu yn Hermon. Yn 2004, amcangyfrifir bod tua 40 o leiniau adeiladu i'w datblygu.

6. Mae'r nifer o achosion o droseddau'n isel.

7. Mae gan yr ardal wasanaeth bws dyddiol o Hermon i Grymych ac Aberteifi, a gwasanaeth misol o Aberteifi drwy Hermon i Gaerfyrddin. Mae gwasanaeth ar wahân ddwywaith yr wythnos o Lanfyrnach a'r Glog i Aberteifi.

8. Mae'r Cynllun Ceir Gwledig yn ychwanegu at y gwasanaeth bws cyfyngedig.

9. Ceir rhwydwaith o lwybrau cyhoeddus dynodedig yn yr ardal sy'n sail i lwybrau beicio ag arwyddbyst; mae llwybr 47 Sustrans yn rhan allweddol o hyn.

10. Ymhlith y gweithgareddau a'r digwyddiadau sy'n denu ymwelwyr i'r ardal y mae Gŵyl Roc, Dawns Haf ac arddangosfa o oleuadau Nadolig.

11. Ceir nifer o grwpiau a chlybiau yn y tri phentref gan gynnwys:
    - Cymdeithas Les Hermon a'r Cylch
    - Pwyllgor Digwyddiadau Hermon a'r Cylch
    - Pwyllgor Parc Busnes
    - Clwb Ffermwyr Ifanc Hermon
    - Pwyllgor y Babell Fawr
    - Clwb Garddio

12. Ymhlith y siopau teithiol a'r gwasanaethau eraill sy'n ymweld â'r ardal y mae siop fara, gwasanaeth llyfrgell, gwasanaeth pryd ar glud, a dosbarthwyr llaeth, ac maent yn lleddfu'r effaith y mae colli cyfleusterau lleol wedi ei chael.

13. Mae cyflogwr pwysig yn Llanfyrnach yw'r cwmni cludiant, Mansel Davies & Son, sy'n cyflogi tua 200 o bobl. Ceir nifer o gwmnïau ychwanegol, ond llai eu maint, sy'n cynnig cyfleoedd cyflogaeth eraill yn lleol.

14. Mae'r posibilrwydd o ddefnyddio TG gartref wedi cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau'n ymwneud â busnes.

15. Mae diddordeb mewn cynhyrchu trydan o ffynonellau sydd ar gael yn lleol.

16. Mae canolfan ailgylchu ardal y Preseli yn gweithredu i'r de-orllewin o Hermon, ac mae diddordeb cynyddol mewn

gweithgareddau sy'n ymwneud â chael gwared ar wastraff mewn modd cynaladwy.

17. Mae pwysigrwydd cynyddol Crymych fel canolfan leol ar gyfer cyflogaeth, siopau a gwasanaethau, gan gynnwys datblygiadau diweddar yn Ysgol y Preseli (canolfan hamdden a theatr) a'r orsaf ar gyfer gwasanaethau'r frigâd dân, yr ambiwlans a'r heddlu - sy'n cynnwys uned ymateb cyflym, yr heddlu, meddygon a Chanolfan Iechyd - yn golygu bod canolfan gymharol lleol ar gael i ateb nifer o anghenion y tri phentref.

18. Mae sylfaen dda o sgiliau yn y gymuned.

Gwendidau

1. Gallai'r ffaith fod cyfran gynyddol o'r trigolion yn newydd, a heb fyw yn yr ardal o'r blaen, leihau'r ymdeimlad o gymuned. Yn ogystal, gallai'r ffaith fod llai o wasanaethau lleol, a llai o gyfleoedd, felly, i drigolion gwrdd yn y siop neu'r capel lleol, arwain at ddirywiad mewn ysbryd cymunedol.

2. Nifer cyfyngedig o gyfleoedd am swyddi sydd ar gael. Mae'r diwydiant amaeth hefyd dan bwysau (er enghraifft oherwydd prisiau llaeth isel) ac mae tuedd gynyddol i ffermydd fod yn fwy o faint, sy'n golygu bod llai o ffermydd teuluol.

3. Mae gwasanaethau a chyfleusterau lleol yn cau'n raddol gan gynnwys siopau a swyddfeydd post yn Llanfyrnach a Hermon.

4. Mae cynulleidfaoedd llai niferus yn yr eglwysi a'r capeli'n cyfyngu ar allu'r gymuned i reoli a chynnal yr adeiladau hyn.

5. Nid oes lle addas oddi ar y ffordd i blant feicio a sglefrfyrddio arno, ac ni wneir digon o ddefnydd o'r cae chwarae yn Hermon.

6. Gwasanaeth bws cyfyngedig sydd ar gael ar gyfer y tri phentref, yn enwedig yn y Glog a Llanfyrnach, a golyga hyn bod yn rhaid i bobl ddibynnu ar geir preifat, yn enwedig gyda'r nos ac ar benwythnosau.

7. Mae cyfyngiadau hanfodol yn perthyn i'r Cynllun Ceir Gwledig a gwasanaeth Cymdeithas Cludiant Gwirfoddol Sir Benfro, sy'n golygu eu bod ar gael i bobl sy'n methu defnyddio ceir preifat yn unig.

8. Nid oes digon o balmentydd, yn enwedig yn Hermon, sef y pentref mwyaf o'r tri, a'r un sydd â'r traffig trymaf yn teithio drwyddo, gan gynnwys cerbydau nwyddau trwm.

9. Ni chymerir digon o ofal o safbwynt ysbwriel, rheoli cŵn, a gyrru'n rhy gyflym.

10. Ceir teimlad cyffredinol nad yw Cyngor Sir Penfro yn gwneud digon yn yr ardal.

11. Nid yw'r cyflenwad trydan yn Llanfyrnach yn ddibynadwy.

12. Ni ddefnyddir pob dull a modd sydd ar gael i gyhoeddi digwyddiadau a rhoi gwybod i aelodau o'r gymuned am yr hyn sy'n digwydd.

13. Ni wneir y defnydd gorau o'r sylfaen o sgiliau sydd ar gael yn y gymuned.

Bygythiadau

1. Mae prisiau tir a thai yn codi, ac mae'r patrwm presennol o adeiladu tai mwy costus yn ei gwneud yn anos (bron yn amhosibl) i'r rhai sydd efallai am brynu tŷ am y tro cyntaf ddod i mewn i'r farchnad dai – a gallai hyn arwain at oblygiadau posibl yn ymwneud â phoblogaeth sy'n heneiddio. Mae prinder o dai dan warchod, a nifer fach o lety i'w rentu.

2. Mae tuedd gynyddol i ganoli gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol mewn canolfannau mwy o faint, er enghraifft Crymych ac Aberteifi, a golyga hyn bod siopau, swyddfeydd post, ysgolion a gwasanaethau iechyd lleol ac ati'n cael eu colli.

3. Mae'n bosibl y bydd yr ysgol gynradd, sy'n fan cyfarfod pwysig i'r gymuned gyfan, yn cau. Mae perygl y bydd cau'r

ysgol yn andwyo naws ddiwylliannol a chymdeithasol y gymuned hon.

4. Mae nifer ac ystod y cyfleoedd gwaith lleol yn crebachu, ac mae'r ardal yn dibynnu ar gryfder ychydig o gwmnïau am gyfleoedd cyflogaeth lleol.

5. Mae prinder pobl â rhai sgiliau adeiladu arbennig, er enghraifft trydanwyr a phlymwyr.

6. Dan bolisïau presennol yr awdurdod lleol, yn enwedig polisi Iechyd a Diogelwch, mae'n bosibl na fydd offer newydd yn cael eu prynu yn lle'r offer sydd ar y cae chwarae yn Hermon, unwaith y bydd y rheiny wedi cyrraedd diwedd eu hoes.

7. Mae'r amrywiaeth o fywyd gwyllt yn lleihau yn sgîl datblygu cynyddol a newid mewn dulliau ffermio.

8. Gwelir llai o frwdfrydedd ynghylch y gweithgareddau a gynhelir ar hyn o bryd mewn cymuned sy'n newid, a gallai hyn effeithio ar waith trefnu digwyddiadau lleol.

Cyfleoedd

1. Gwneud mwy o ddefnydd o ysgol Hermon i ddibenion cymunedol pe bai'r adeilad yn parhau i gael ei ddefnyddio fel ysgol, neu ddatblygu dulliau newydd o ddefnyddio adeilad yr hen ysgol pe na byddai angen yr adeilad mwyach i ddibenion addysgol. Byddai'r gymuned yn elwa i'r eithaf o greu ystod eang o ddefnyddiau i'r adeilad, gan y byddai hynny'n rhoi rhesymau ychwanegol dros ddefnyddio'r safle a chyfarfod â phobl eraill. Mae Cyngor Cymuned Crymych, o ran egwyddor, wedi sicrhau bod tir ar gael er mwyn datblygu canolfan gymunedol os ceir caniatâd i gynllunio.

2. Datblygu cysylltiadau TG, gan gynnwys technoleg band eang, er mwyn caniatáu mynediad byd-eang i addysg, gwybodaeth ac adloniant.

3. Datblygu gwasanaeth bws cymunedol ar gyfer yr ardal er mwyn ychwanegu at ddarpariaeth y gwasanaeth presennol.

4. Gwneud y pentrefi'n fwy dymunol i gerddwyr drwy rybuddio rhag parcio anghyfrifol ar y palmentydd, a chyflwyno mesurau cyfyngu cyflymder.

5. Gwella'r rhwydwaith o lwybrau cyhoeddus lleol. Er bod yr arwyddion a geir wrth ymyl ffyrdd wedi gwella, mae angen gwella'r modd y mae ffiniau nifer o lwybrau wedi eu nodi, a'u cynnal a'u cadw wedi hynny.

6. Datblygu rhannau o drac hen reilffordd y Cardi Bach, sydd ar oleddf graddol, yn llwybr amlddefnydd ar gyfer marchogaeth, beicio neu gerdded er mwyn denu twristiaid i wario'u harian yn yr ardal a chreu cyfleoedd gwaith (rhan-amser) posibl.

7. Datblygu brand er mwyn adnabod a marchnata'r ardal, er enghraifft "Cwm Arian", gyda logo priodol i adlewyrchu un o agweddau hanesyddol yr ardal.

8. Darparu gwell gofal plant.

9. Gwneud mwy o ddefnydd o'r adeiladau cymunedol presennol, gan gynnwys y capel a'r eglwys.

10. Hyrwyddo adnoddau treftadaeth bresennol y gymuned, er enghraifft pwll Bwlch-y-dŵr ger yr afon, llyfr ar 'Hanes Capel y Bedyddwyr yn Hermon', gan archwilio syniadau eraill ar gyfer prosiectau.

11. Llythyr newyddion cymunedol, er mwyn hysbysu'r bobl leol am yr hyn sy'n digwydd, a dolen gyswllt iddo o wefan bresennol y gymuned.

12. Gwneud defnydd mwy effeithiol o'r ystod eang o sgiliau sydd yn y gymuned.

ARGYMHELLION Y CYNLLUN GWEITHREDU

O gofio bod y boblogaeth yn gymharol fach yn y tri phentref ac y bydd pobl yn parhau i deithio i Grymych gerllaw, byddai'n fwy ymarferol cyfuno'r gwasanaethau a'r gweithgareddau hamdden a'u cynnal mewn un adeilad a fyddai'n brif fan cyfarfod i'r gymuned gyfan. Yna, gellid llunio cynllun busnes syml i hybu ei ddatblygiad a chefnogi unrhyw geisiadau am gyllid yn y dyfodol.

A. Cyfleusterau a Datblygu Cymunedol

1. Cefnogi ymchwil i'r gwahanol opsiynau ar gyfer y defnydd o'r ysgol yn y dyfodol, er enghraifft cyfetholedig/gwirfoddol /cynllun noddi/annibynnol, a sicrhau bod pawb yn cael ei hysbysu.

2. Datblygu grŵp rheoli i reoli a hyrwyddo canolfan leol, yn Hermon yn ôl pob tebyg, gan mai'r pentref hwnnw yw'r un mwyaf, er mwyn cynhyrchu incwm, fel ei fod yn hunan-gynaliadwy, gan gynnig gwasanaethau megis siop a swyddfa'r post, a changen o fanc Undeb Credyd sydd wedi ennill ei blwyf (fel yng Nghilgeti ac Arberth) efallai, a chaffi.

3. Datblygu cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau cymunedol, er enghraifft yn adeilad yr ysgol yn Hermon, ystyriwyd bod cefnogi a hyrwyddo gweithgareddau ieuenctid cyfredol, megis Adran yr Urdd, Aelwyd, a Chlwb Ffermwyr Ifanc, yn arbennig o bwysig. Gallai gweithgareddau eraill gynnwys
   - hyrwyddo cymuned ddwyieithog;
   - datblygu Canolfan Adnoddau / Neuadd Bentref â chyfleusterau TG a systemau golau a sain priodol a fyddai'n addas i gylch meithrin / meithrinfa i blant, clwb ieuenctid, clwb i rai dros 60 oed ac ati;
   - cynnig rhaglen hyfforddi mewn sgiliau y mae prinder ohonynt yn lleol – yn enwedig o ran defnyddio TG / Band Eang a datblygu gwefan i ymwelwyr;
   - darparu canolfan er mwyn cynnig gwasanaethau'n lleol, er enghraifft cyngor ynghylch iechyd, a darparu canolfan ar gyfer ymweliadau gan ymgynghorwyr Cyngor ar Bopeth, Swyddog Datblygu Gwledig ac ati;
   - creu cyfleoedd ar gyfer chwaraeon dan do, er enghraifft bowls dan do.

4. Gweithio gyda'r Eglwys yng Nghymru a rheolwyr y capeli i baratoi rhaglen o wahanol ffyrdd y gellid defnyddio Eglwys Sant Brynach yn Llanfyrnach, Capel y Bedyddwyr yn Hermon a Chapel yr Annibynwyr yn Llwynyrhwrdd gerllaw yn y dyfodol.

5. Annog pobl i wneud mwy o ddefnydd o'r cae chwarae presennol yn Hermon, a darparu lle â tharmac arno a fyddai'n addas i feiciau a sglefrfyrddau.

6. Ystyried gosod lle chwarae amlddefnydd at bob tywydd (MUGA) y mae modd i'w faint amrywio yn ôl anghenion sydd wedi'u pennu'n lleol.

7. Dod o hyd i safle addas ar gyfer toiledau cyhoeddus yn Hermon, yn agos i'r cae chwarae a'r lle chwarae presennol neu'r cyfleusterau chwaraeon newydd, os bydd hynny'n bosibl.

8. Sefydlu Fforwm Cymunedol a fyddai'n cyfarfod bob tri mis er mwyn rhoi'r Cynllun Gweithredu ar waith. Byddai'r Fforwm yn cynnwys cynrychiolwyr yr ardal, Cyngor Cymuned Crymych a'r Cyngor Sir. Efallai y byddai'r Fforwm am wahodd cynrychiolwyr sefydliadau perthnasol eraill pan fyddai hynny'n briodol, er enghraifft Heddlu Dyfed-Powys.

9. Trefnu bod gwybodaeth yn cael ei pharatoi a'i dosbarthu i ddisgrifio'r gweithgareddau a gynhelir yn y gymuned, gan gynnwys:
   - darparu hysbysfyrddau ychwanegol;
   - cyhoeddi llythyr newyddion cymunedol bob tri mis/datblygu llythyr newyddion y plwyf presennol (yr eglwys);
   - datblygu'r wefan gymunedol bresennol.

10. Datblygu atyniadau a digwyddiadau i ddenu ymwelwyr i'r ardal, gan gynnwys y gweithgareddau canlynol a gynhelir ar hyn o bryd:
    - Gŵyl Roc;
    - Goleuadau Nadolig;
    - Dawns Haf;
    - Arddangosfa dân gwyllt;

- Carnifal blodau'r haf;
- Sioeau garddwriaethol;
- Pentref yn ei Flodau/Cystadleuaeth Pentref y Flwyddyn.

11. Annog darparu atyniad a fyddai'n cynnig bwyd, diod ac adloniant.

12. Ystyried cylch gorchwyl nifer o'r sefydliadau presennol yn sail ar gyfer cyfleoedd newydd i'r gymuned.

13. Archwilio'r potensial am ganolfan gerddi a arweinir gan y gymuned/menter gymdeithasol, sy'n tyfu ac yn gwerthu planhigion fel menter gymunedol.

14. Archwilio'r posibilrwydd o gynllun cyfnewid/rhannu sgiliau, er enghraifft LETS (*Local Exchange Trading System*).

15. Sicrhau bod yr Adran (Clwb Ieuenctid Cymraeg), Aelwyd a Chlwb Ffermwyr Ifanc yn hysbysebu gweithgareddau.

B. Amgylchedd a Threftadaeth

1. Gweithio gydag arbenigwyr lleol a sefydliadau sydd wedi ennill eu plwyf, er enghraifft Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru, Coed Cadw a chyrff yn ymwneud â ffermio, er mwyn cofnodi'r amrywiaeth o gynefinoedd bywyd gwyllt lleol a'u gwella. Gallai hyn gynnwys plannu coed a chynnal a / neu greu llwybrau a fyddai'n galluogi pobl i werthfawrogi'r cynefinoedd hyn yn well.

2. Annog yr ifanc i gymryd rhan mewn prosiectau'r amgylchedd a threftadaeth.

3. Dehongli a gwarchod archaeoleg gynnar ac archaeoleg ddiwydiannol yr hen weithfeydd cloddio a mwyngloddio.

4. Archwilio ailsefydlu grŵp treftadaeth lleol, er mwyn cadw cofnod o hanes lleol, gwneud gwaith ymchwil ar safleoedd lleol, a
   - dehongli'r dreftadaeth leol, er enghraifft drwy daflenni, paneli, teithiau a cherfluniau;
   - canolfan treftadaeth, canolfan croeso.

5. Datblygu dathliad o ddigwyddiadau diwylliannol, er enghraifft ‘Cawl a Chân’ Dydd Gŵyl Dewi Sant. Mae’n bwysig peidio â cholli’r traddodiad a gaiff ei ddathlu gan blant ysgol lleol y dyddiau hyn.

6. Datblygu llwybr treftadaeth wedi’i seilio ar lwybr rheilffordd y Cardi Bach a gweddillion y gweithfeydd arian-plwm a llechi. Gallai ecoleg yr ardaloedd hyn a fwyneiddiwyd fod o ddiddordeb arbennig.

7. Annog pobl leol i fod yn fwy cydwybodol o ran y modd y cânt wared ar eu hysbwriel, gan gynnwys baw cŵn.

C. Busnes, Cyflogaeth a Hyfforddiant

1. Gweithio gydag asiantaethau creu cyflogaeth ac asiantaethau cynghori ynghylch cyflogaeth (gan gynnwys Cyngor Sir Penfro, Awdurdod Datblygu Cymru, Menter Busnes Sir Benfro, Bwrdd Croeso Cymru a Choleg Sir Benfro [fel rhan o’u rhaglen yn y gymuned] er mwyn cynyddu cyfleoedd cyflogaeth (gan gynnwys cyflogaeth ran-amser) yn yr ardal drwy
   - adeiladu unedau cychwyn busnes ar gyfer cwmnïau bach drwy godi adeiladau newydd sbon, neu drwy addasu neu ymestyn adeiladau sy’n bodoli eisoes;
   - datblygu sgiliau sy’n ymwneud â gwaith (yn enwedig y rhai hynny sy’n gysylltiedig â’r diwydiant adeiladu, gwaith trydanwyr a phlymwyr, gwaith saer a TG);
   - hyrwyddo twristiaeth a’r ddarpariaeth o ran llety sy’n gysylltiedig â’r diwydiant;
   - cymryd rhan mewn unrhyw drefniadau hyfforddi sy’n cael eu hyrwyddo yng Nghrymych neu oddi yno;
   - dau ddiwrnod o ‘roi trefn ar bethau’, fel rhan o galendr o ddigwyddiadau.

Ch. Ynni Adnewyddadwy/Ailgylchu

1. Ar y cyd â grwpiau ynni cynaladwy megis Canolfan Eco Gorllewin Cymru, datblygu strategaeth leol ar gyfer cynhyrchu ynni cynaladwy, gan gynnwys cyfleoedd i
   - gynhyrchu trydan dŵr yn siafft a phibellau’r hen fwynglawdd;

- defnyddio strwythurau llai i gynhyrchu trydan o wynt ac o'r haul – ar raddfa lai, er mwyn ateb anghenion lleol;
- defnyddio tanwydd bio-màs i gynhyrchu ynni (gyda chysylltiadau â'r diwydiant ffermio);
- arbed ynni mewn cartrefi presennol, a rhai sydd yn yr arfaeth;
- ennyn gwybodaeth ac ymwybyddiaeth am gael gwared ar ysbwriel, ac am botensial prosiectau mentrau cymunedol, er enghraifft FRAME (ailgylchu celfi ac offer).

2. Cwrdd â'r cyflenwr trydan i wella ansawdd y cyflenwad i Lanfyrnach – bellach, mae'r seilwaith yn ei le, rhaid archwilio'r potensial o ran cynhyrchu a dosbarthu pŵer yn lleol.

3. Hyrwyddo cyfleusterau ailgylchu, gan sicrhau bod arwyddion clir ar safle presennol Cyngor Sir Penfro, sydd i'r de-orllewin o Hermon.

4. Datblygu cynllun lleihau gwastraff ar gyfer yr ardal, ar y cyd â Chyngor Sir Penfro ac asiantaethau eraill, gan gynnwys darparu biniau sbwriel a gwella'r gwasanaeth casglu sbwriel.

D. Twristiaeth

1. Ar y cyd â chyrff sy'n ymwneud â thwristiaeth, datblygu thema a symbol a allai gael eu cysylltu â'r rhwydwaith o lwybrau cyhoeddus, y llwybr treftadaeth, adeiladau cymunedol, hysbysfyrddau (yn dangos mapiau o lwybrau), darparwyr llety ac unrhyw wasanaeth bws cymunedol sy'n lleol. (Efallai y bydd angen ystyried ardal ehangach ar gyfer menter o'r fath yng ngogledd-ddwyrain Sir Benfro).

2. Datblygu rhwydwaith o lety i ymwelwyr yn yr ardal, a chysylltu â'r asiantaethau priodol er mwyn hysbysebu a hyrwyddo.

Dd. Tai

1. Ar y cyd â Chyngor Sir Penfro, yn rhinwedd ei ddyletswyddau fel Awdurdod Tai a Chynllunio, hyrwyddo'r

angen i gyfrannu'n gadarnhaol at y gwaith o ddarparu tai er mwyn sicrhau

- bod rhai tai fforddiadwy yn yr ardal (i'w rhentu a'u prynu) a fyddai'n helpu i gadw teuluoedd ifanc yn agos i'w cartrefi presennol;
- bod tai sy'n addas i'r henoed yn cael eu darparu'n lleol.

2. Ceisio cael cymdeithasau tai presennol, hynny yw Tai Cantref, i gymryd rhan yn y fenter hon – neu gefnogi datblygu ymddiriedolaeth dai leol.

E. Cludiant, Trafnidiaeth a Hawliau Tramwy

1. Datblygu gwasanaeth bws (mini) cymunedol i wasanaethu'r tri phentref a'u cysylltu â Chrymych – a Chlunderwen, lle mae'r orsaf drenau agosaf.

   Ymhlith yr opsiynau posibl y mae cymryd rhan ym menter Draig Werdd y Preseli, cysylltu â chynllun Ceir Gwledig, a/neu ddatblygu corff mwy lleol wedi'i seilio ar fodel Cymdeithas Cludiant Cymunedol Maenorbŷr a'r Cylch neu fodel Arberth (Bloomfield) sy'n defnyddio gyrwyr gwirfoddol.

   Gallai darparu gwasanaeth bws cymunedol sy'n cysylltu'r pentrefi â Chrymych hefyd gynyddu cyfleoedd o ran cyflogaeth, hyfforddiant a hamddena – yn enwedig gyda'r nos ac ar benwythnosau.

2 Creu rhaglen, ar y cyd â'r Awdurdod Priffyrdd, ar gyfer darparu palmentydd a chyflwyno mesurau gostwng cyflymder cerbydau, hynny yw 40 milltir yr awr ac yn uwch (30 milltir yr awr i'w wneud yn orfodol), gan gynnwys gosod goleuadau stryd ar wahân a fyddai'n gysylltiedig â hynny.

3. Gwella'r ddarpariaeth o ran mannau parcio oddi ar y ffordd (a'r palmentydd), yn enwedig yn Hermon, yn agos i'r ysgol a'r lle chwarae.

4. Sefydlu Clwb Cerdded (fel yng Nglandŵr) i adnabod, gwella a rhoi arwyddion ar y llwybrau hynny a fydd yn gwella rhwydwaith o lwybrau cyhoeddus i wasanaethu'r tri phentref ac a fydd yn cysylltu â llwybrau eraill sy'n cael eu hyrwyddo'n

lleol. Annog Cyngor Sir Penfro i gynnal y rhwydwaith a fydd yn cael ei greu ar y cyd â thirfeddianwyr a ffermwyr.

5. Codi proffil beicio, yn lleol ac o ran twristiaeth, ar y cyd â rhwydwaith cenedlaethol Sustrans a'r rhwydwaith o fewn y sir sy'n gysylltiedig ag ef.

6. Creu llwybr amlddefnydd ar hyd y rhannau hynny o hen reilffordd y Cardi Bach y mae'n bosibl cael mynediad iddynt.

7. Archwilio datblygu cynllun y ceir gwledig sy'n bodoli ymhellach.

GRWPIAU GWEITHREDU/GWEITHGAREDDAU

Er mwyn gyrru'r Cynllun Gweithredu yn ei flaen yn effeithiol, argymhellir y dylid ffurfio Gweithgorau o fewn y Fforwm Cymunedol arfaethedig a fyddai'n ymwneud â meysydd arbennig. Byddai'r Gweithgorau, drwy ymgynghori â'r darparwyr perthnasol megis yr Awdurdod Priffyrdd, yn canolbwyntio ar baratoi cynlluniau gweithredu mwy manwl a fyddai'n rhoi blaenoriaeth a phwyslais ar yr argymhellion hynny y mae modd eu rhoi ar waith yn fuan.

Gallai'r Gweithgorau ymdrin â'r meysydd canlynol:

- economi, hyfforddiant ar gyfer cyflogaeth (gan gynnwys TG) a chynhyrchu ynni a chadwraeth (gan gynnwys ailgylchu);

- cludiant, amgylchedd, treftadaeth a thwristiaeth;

- y gymuned – sefydliadau a digwyddiadau, tai, adeiladau.

Byddai'n bwysig i'r Gweithgorau

- weithio o fewn y Fforwm Cymunedol a'r Cynllun Gweithredu y cytunwyd arno;
- gweithio gyda grwpiau a chyrff sy'n bodoli eisoes;
- cyfarfod yn rheolaidd;
- rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd â'r gymuned ehangach.

Atodiad 1

Prif gasgliadau Gwerthusiad Cymunedol 2000

- Roedd dwy ran o dair bron o'r rhai hynny a ddychwelodd yr holiadur wedi byw yn y gymuned ers dros ddeng mlynedd.

- "Cymuned gyfeillgar a chymwynasgar lle mae pawb yn adnabod ei gilydd" a "llonydd a thawelwch" oedd y manteision a nodwyd amlaf wrth sôn am fyw yn y gymuned.

- Yr anfanteision a nodwyd amlaf oedd "dim siopau, diffyg cludiant cyhoeddus, dim swyddfa'r post, dim gweithgareddau na chyfleusterau lleol".

- Y cyfleusterau yr oedd pobl yn eu gwerthfawrogi neu'n dymuno'u gweld yn cael eu gwella oedd yr ysgol yn Hermon, a man cyfarfod ar gyfer pobl o bob oed.

- Y gweithgareddau hamdden mwyaf poblogaidd oedd nofio, mynd i'r sinema a chadw'n heini (i gyd yng Nghrymych, mae'n debyg).

- Roedd dros hanner y rhai a ymatebodd yn anfodlon â'r cyfleusterau yn y gymuned ar gyfer diddordebau a gweithgareddau – ac roeddent yn argymell y dylid cael neuadd bentref ar gyfer digwyddiadau diwylliannol a chymdeithasol a rhai'n ymwneud â chwaraeon. Y digwyddiadau mwyaf poblogaidd a awgrymwyd ar gyfer y neuadd oedd dosbarthiadau dydd a nos, clwb ieuenctid, a chinio i bobl dros 60 oed – a fyddai'n cael eu cynnal yn wythnosol neu'n fisol.

- Roedd dros hanner yr aelwydydd yn anhapus â'r cyfleusterau presennol i ieuenctid yn y gymuned, ac roeddent yn awgrymu y dylid cael man cyfarfod i ieuenctid (heblaw am y dafarn).

- Roedd dros hanner y rhai a ymatebodd yn chwilio'n rheolaidd am gludiant i fynd i rywle arall i gael adloniant.

Dosbarthwyd 173 o holiaduron, a seiliwyd y canlyniadau ar gyfradd ymateb oedd yn 91%.